

## DATGANIAD I'R WASG PRESS RELEASE

### **EMBARGO LLWYR: 00.01 Dydd Iau 7 Chwefror 2019**

#### ***'Canfuwyd anghysondebau yn y modd y mae gofal a chymorth yn cael eu darparu gan Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol ledled Cymru' meddai Arolygiaethau***

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) heddiw yn cyhoeddi ei Adolygiad Thematig ar y Cyd o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol ac wedi gwneud 23 argymhelliad ar gyfer gwella.

Mae'r adolygiad hwn yn ymateb yn bennaf i adroddiad a gyhoeddwyd gan AGIC ym mis Mawrth 2016: *Adolygiadau Allanol Annibynnol o Achosion o Ddynladdiad – Gwerthusiad o adolygiadau a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ers 2007*. Wrth ystyried natur integredig gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol, cytunwyd y byddai'r adolygiad yn cael ei gynnal ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Yn cael ei gyhoeddi ddydd Iau, 7 Chwefror 2019, mae'r adolygiad hwn yn dwyn themâu allweddol ynghyd sydd wedi deillio o'n harolygiadau ar y cyd o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol ledled Cymru, ynghyd ag ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, gofalwyr a'r trydydd sector.

Y themâu allweddol sydd wedi deillio o'r adolygiad hwn yw:

- Mynediad at wasanaethau
- Cynllunio Gofal
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol
- Llywodraethu

Mewn perthynas â'r themâu hyn gwnaethom ganfod bylchau ac amrywioldeb o ran safonau, cysondeb ac argaeledd y driniaeth, gofal a chymorth a ddarperir gan Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol ledled Cymru.



### **Mae'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys y canlynol:**

- Mae yna ddiffyg eglurder o ran y ffordd y mae pobl yn cael gafael ar Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol, gyda'r angen i gryfhau cysylltiadau rhwng Meddygon Teulu a Thimau Iechyd Meddwl Cymunedol. Mewn rhai ardaloedd mae diffyg gwybodaeth ynglŷn â'r ystod o wasanaethau sydd ar gael y gellir atgyfeirio pobl atynt.
- Rydym yn pryderu ynghylch gallu pobl sy'n profi argyfwng iechyd meddwl i gael gafael ar gymorth brys. Mae rhai defnyddwyr gwasanaeth yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar wasanaethau y tu allan i oriau neu'n gorfod mynychu adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Nid oedd nifer sylweddol o bobl yn gwybod â phwy i gysylltu y tu allan i oriau.
- Nid yw defnyddwyr gwasanaeth na theuluoedd yn cael eu cynnwys yn llawn wrth ddatblygu cynlluniau gofal a thriniaeth.
- Er bod Timau Iechyd Meddwl Cymunedol yn cyflawni targedau ar gyfer cwblhau asesiadau a/neu gynlluniau gofal, rydym wedi canfod nad yw hyn bob amser yn golygu bod ansawdd y ddogfennaeth yn dda
- Mae heriau sylweddol yn wynebu pobl sydd am gael gafael ar wasanaethau seicolegol neu therapiwtig gydag amseroedd aros hir yng Nghymru; hyd at 24 mis mewn rhai ardaloedd.
- Mewn rhai ardaloedd ceir problemau wrth geisio cael gafael ar wasanaethau trydydd sector neu wasanaethau cymorth eraill, sy'n golygu nad yw'r cymorth amhrisiadwy y mae'r gwasanaethau hynny yn gallu ei gynnig yn cael ei ddefnyddio'n llawn neu'n effeithiol.
- Mae llawer o waith yn cael ei wneud i drawsnewid gwasanaethau ledled Cymru, sy'n gadarnhaol. Fodd bynnag, mae angen parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael gofal priodol wrth i newidiadau ehangach gael eu gwneud.
- Mae technoleg gwybodaeth a mynediad cyffredinol at gofnodion cleifion/defnyddwyr gwasanaeth yn broblem fawr ar draws Timau Iechyd Meddwl Cymunedol gan nad yw systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio'n iawn gyda'i gilydd.

- Mae angen gwella amgylcheddau gweithio Timau Iechyd Meddwl Cymunedol ac mae rhai meysydd clinigol yn anaddas at y diben.

Dywedodd Prif Weithredwr AGIC, Dr Kate Chamberlain: "Mae'r adolygiad hwn ar y cyd wedi pwysleisio anghysondebau yn y modd y mae gofal a chymorth yn cael eu darparu gan Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol ledled Cymru.

"Er ein bod wedi nodi ymrwymiad y rheini sy'n gweithio yn y gwasanaethau hyn i ddarparu'r gofal gorau a allant, mae'r her i sicrhau bod pobl sy'n byw gyda salwch meddwl yn cael gofal teg, lle bynnag maent yn byw, yn parhau.

"Rydym yn gobeithio y bydd yr adolygiad hwn yn hybu gwelliant, a bod y canfyddiadau a'r argymhellion yn cael eu hystyried yn ofalus gan Lywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol."

Meddai Prif Arolygydd AGC Gillian Baranski: "Mae sicrhau bod pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl, a'u gofalwyr, yn cael gofal a chymorth di-dor gan Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol yn hanfodol. Mae'r adolygiad hwn wedi pwysleisio meysydd lle mae gweithio ar y cyd rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn gweithio'n dda ac wedi nodi meysydd lle mae angen gwella gweithio ar y cyd er mwyn sicrhau bod pobl yn cael canlyniadau cadarnhaol"

## **DIWEDD**

**Ar gyfer ymholiadau'r wasg a chopïau o'r adroddiad, cysylltwch â  
Jo Broaders ar 03000 251785 / 07580 849033 / [joanna.broaders@gov.wales](mailto:joanna.broaders@gov.wales)**

## **Nodiadau i Olygyddion**

- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Ceir rhagor o fanylion ar ein gwefan: [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)
- Arolygiaeth Gofal Cymru yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ceir rhagor o fanylion ar ein gwefan <https://arolygiaethgofal.cymru/>

- Caiff yr adolygiad arbennig hwn ei gyhoeddi ar ein gwefan am 00.01 ddydd Iau 7 Chwefror 2019.